# Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

Nod Canolfannau Iaith ein cyfundrefn yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i’r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi’n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog.


**Bydd ein dysgwyr yn dathlu’r iaith Gymraeg, ei diwylliant a’i threftadaeth ar draws eu gwaith.**




# Gweledigaeth Cabinet Cyngor Gwynedd

*Sefydlu cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.*
*Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd ac yn gyfrwng i'w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu."*

# Strwythur y Gyfundrefn o ran lleoliadau



# Ein Gwerthoedd



# Cynllunio Cwricwlwm Ein Cyfundrefn Drochi

## Cam 1: Egwyddorion a Phwrpas

Dechreuom drwy sefydlu egwyddorion y cwricwlwm sy’n adlewyrchu gwerthoedd, cyd-destun, dulliau addysgeg ac anghenion ein dysgwyr o fewn ein cyfundrefn. Buom yn trafod ac yn diffinio ein hegwyddorion cwricwlaidd, ffactorau unigryw cymunedau ein hunedau iaith, ein gweledigaeth a’n dyheadau ar gyfer ein holl randdeiliaid.

## Cam 2:– Ein cynnig i ddysgwyr

Ar ôl egluro ein hegwyddorion a’n pwrpas, aethom ati i nodi ein cynnig i ddysgwyr. Buom yn ystyried y pethau na fyddem yn fodlon ildio arnynt a sut rydym yn bwriadu ehangu ein cwricwlwm gydag ymweliadau addysgol, gweithgareddau allgyrsiol a phrofiadau eraill i gyfoethogi’r cwricwlwm. Buom yn ystyried yr hyn y bydd dysgwyr yn ei brofi wrth iddynt fynychu’r unedau iaith a meddwl am ffyrdd o gyfleu hyn.

## Cam 3: Ehangder a Chydbwysedd

Rydym yn defnyddio’r disgrifiadau dysgu i dynnu ynghŷd amrywiaeth eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Cânt eu harchwilio drwy amrywiaeth o gyd-destunau, meysydd dysgu a phrofiad a gweithgareddau a ddewisir yn y broses o ddylunio cwricwlwm. Rydym hefyd yn creu cysylltiadau ar draws Meysydd fel y bo’n briodol. Rydym yn helpu dysgwyr i gymhwyso’r disgrifiadau o ddysgu mewn cyd-destunau sy’n gynyddol heriol ac yn caniatáu ar gyfer dargyfeirio, atgyfnerthu a myfyrio wrth i’w medrau ieithyddol yn y Gymraeg, eu dealltwriaeth a’u defnydd o’r dysgu allweddol ddatblygu, gan ysgogi meddwl dwfn, trafodaeth ac ymholi.

## Cam 4: Addysgeg

Rydym wedi datblygu gweledigaeth gref o ran dysgu ac addysgu sy'n ystyried  y 'pam'  ar gyfer ein cwricwlwm, yn ogystal â'r beth a'r sut. Mae ein gweledigaeth yn cydnabod rôl hanfodol yr amgylchedd dysgu o ran cefnogi dysgu effeithiol ynghyd â'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth.

## Cam 5: Cynnydd ac Asesu

Mae cynnydd  dysgwyr ar hyd continwwm dysgu 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol. Byddwn yn asesu gwaelodlin ieithyddol Cymraeg ein dysgwyr ar ddechrau'r cwrs gan dracio eu cynnydd yn rheolaidd cyn cofnodi eu cyrhaeddiad ar ddiwedd y cwrs.

## Cam 6: Adolygu ac Arfarnu

Gan ein bod bellach wedi sefydlu cwricwlwm ein cyfundrefn drochi, un cam pwysig yw adolygu'n rheolaidd ei effaith ar addysgu a dysgu, gan wneud unrhyw addasiadau neu newidiadau sydd eu hangen arnom i rymuso a gwella ein darpariaeth. Byddwn yn ystyried cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff  yn deillio o flaenoriaethau ein Cynllun Gwella.

Cam 1:Egwyddorion a phwrpas- Trochi Dysgwyr trwy brofiadau cyfoethog

## Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu â phobl, lleoedd a chymunedau. Mae'r Maes hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod dysgwyr, fel dinasyddion Cymru *ddwyieithog* mewn byd *amlieithog*, yn gallu defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill mewn cyd-destun *lluosieithog*. Mae profiadau dysgu iaith ystyrlon yn mynd law yn llaw â dysgu am ein hunaniaeth ddiwylliannol ein hunain yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol pobl eraill. Gall ymwneud â'r Maes hwn felly feithrin balchder dysgwyr yn eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru yn ogystal â'r byd.
- Drwy godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ieithoedd o oedran cynnar, y nod yw galluogi dysgwyr i adnabod tebygrwydd rhwng ieithoedd a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw. Gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn gefnogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o darddiad, esblygiad a nodweddion amrediad o ieithoedd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw i feithrin eu creadigrwydd, ynghyd â chyfres o sgiliau sy'n cynnwys sgiliau *cyfryngu*, hyblygrwydd ac empathi.

# Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch

- Mae ieithoedd a *llythrennedd* yn hanfodol i alluogi pobl i gyfathrebu â’i gilydd. Maen nhw’n ein galluogi i ddehongli’r hyn a glywn, a ddarllenwn ac a welwn, a thrwy hyn ddatblygu ein dealltwriaeth, ein hempathi a’n gallu i ymateb a *chyfryngu’n* effeithiol.
- Nod y Maes hwn yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr brofi ieithoedd, yn ogystal â delweddau, mewn ystod o ffurfiau a *genres*. Gall natur gyfoethog ac amrywiol y profiadau hyn ddatblygu gallu dysgwyr i ddod yn greadigol ac yn fentrus wrth ddefnyddio amrediad o ieithoedd mewn cyd-destun *lluosieithog*. Gallan nhw hefyd fod o gymorth i ddysgwyr feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddehongli’n feirniadol a diduedd yr hyn y byddan nhw’n ei glywed, ei ddarllen a’i weld er mwyn rhyngweithio’n effeithiol fel dinasyddion galluog, gwybodus yng Nghymru a’r byd

# Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu

- Mae cyfathrebu clir ac effeithiol trwy ieithoedd yn un o sgiliau pwysig bywyd. Mae’n gofyn am allu defnyddio ac addasu ieithoedd mewn amrywiaeth o rolau, genres, ffurfiau, cyfryngau ac arddulliau, a hynny mewn *cywair* addas. Mewn cyd-destun dwyieithog ac amlieithog, mae hyn hefyd yn gofyn am allu dewis iaith briodol, a *chyfryngu*.
- Yn y Maes hwn, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio ieithoedd er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthynas ag eraill. Bydd y dysgu a phrofiad yn eu cefnogi i ddod yn ymwybodol o sut maen nhw’n defnyddio ystod o ieithoedd i fynegi eu hunain at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Ar gyfer Cymraeg neu Saesneg, mae hyn yn golygu siarad ac ysgrifennu

# Mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

- Mae *llenyddiaeth* yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a’n cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith a chyfathrebu.
- Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a’u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storïwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw’n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth amrywiol sy’n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â’r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i’w dealltwriaeth o’u credoau, diwylliannau a’u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda’i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

# Cam 2: Ein Cynnig i ddysgwyr

Ymrwymo i brosiect Llysgenhadon Gwyddoniaeth ymhob ardal ar gyfer pob Uned – Teithiau natur/teithiau cerdded-Ffurfio Partneriaeth hefo Anelu i drefnu gweithgareddau Awyr Agored i ddod i adnabod yr ardal leol a Chymru- Treftadaeth

**Cynefin naturiol**
–byd natur
-Amgylchedd
Newid hinsawdd
Cynaladwyedd

**Diwylliant a Threftadaeth A Hunaniaeth**

Yr Urdd/Hunaniaith

Orielau

Neuaddau

Ffurfio Partneriaeth hefo'r Urdd ymhob canolfan o fewn y Gyfundrefn i hyrwyddo'r mudiad- Chwaraeon, yr Eisteddfod, Celf a Chrefft, gwersylloedd a Neges Ewyllys Da
Cydwiethio hefo Hunaniaith i gefnogi hwyrddyfodiaid a'u teuluoedd i gael mynediad at weithgareddau Cymraeg ar draws y Sir. Cefogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Ffactorau Unigryw ein hunedau i ddeffro ein synhwyrau wrth gaffael iaith.

**Siopau Cyflenwyr Masnachol ac Elusenol**

Cyfleoedd i'r plant fynd am dro i'r siopau lleol am sgwrs ac ymarfer eu patrymau iaith efo'r gweithwyr. Sefydlu partneriaeth – siarter i gefnogi dysgwyr- codi ymwybyddiaeth o wahanol elusennau a'r hyn maent yn ei gefnogi.

Trefnu ymweliadau hefo gweithwyr allweddol yn ein cymunedau- hyrwyddo byd gwaith a gwerth i'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau allweddol yma i'n trigolion

**Gwasanaethau lleol**:
Tân/heddlu, Llyfrgell,Archifdy,
Amgueddfa
Ail Gylchu

**Byw'n Iach**

**Llesiant**

Mentrau clybiau

5 Ffordd at Iechyd

Betsi Cadwaladr

Gweithredu egwyddorion Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd.Hyrwyddo ffitrwydd a bwyta'n iach-Ffurfio partneriaethau hefo Clybiau amrywiol gemau yn yr ardal leol – hyrwyddo byw'n iach gydol oes. Sefydlu cytundeb hefo Swyddogion Byw'n Iach i gynnal a hyrwyddo ffitrwydd.Hyrwyddo cynllun Pŵer Llysiau mewn ysgolion.

**Adeiladau Crefyddol**

Cyfle i ymweld â safleoedd/adeiladau crefyddol amrywiol yn ein cymunedau a dysgu am wahanol grefyddau, arferion , seremonïau a gwyliau crefyddol.

Cam 3: Ehangder a Chydbwysedd

Cynllunio Cwricwlwm i Gymru-

MDaPh_________________________

Beth yw'r cysyniadau Allweddol sydd angen eu datblygu yn y datganiad hwn?

Sut mae'r datganiad hwn yn hyrwyddo'r 4 diben?

Oes cyfle i ni fynd i'r afael ag unrhyw themâu trawsbynciol?

Sut allwn ni gymhwyso'r datganiad mewn modd diddorol?


**Datganiad yr Hyn sy'n Bwysig**

Pa brofiadau allwn ni eu cynnig i gyfoethogi'r maes?


A oes cysylltiad naturiol hefo datganiadau yr hyn sy'n bwysig mewn unrhyw un o'r MDaPh eraill?

| 27 Datganiad Yr Hyn Sy'n Bywysig ar draws y 6 Maes Dysgu a Phrofiad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y celfyddydau mynegiannol** | **Iechyd a lles** | **Y Dyniaethau** | **Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu** | **Mathemateg a Rhifedd** | **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** |
| **Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol** | Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau |
| **Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.** | Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch | Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol. | Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas |
| **Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg** | Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol. | Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |
| | Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles | Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. | Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd | Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus. | Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau. |
| | Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles | Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol | | | Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd. |
| | | | | | Mae cyfrifiadureth yn gosod sail i'n byd digidol |

## Cam 4: Addysgeg



# Cam 5: Cynnydd ac Asesu



# Y Pedwar Diben- Continua i blant

| Uchelgeisiol a Galluog | Egwyddorol a Gwybodus | Iach a Hyderus | Mentrus a chreadigol |
|---|---|---|---|
| Gofyn cwestiynau | Gwrando ac ymateb | Gofalu am iechyd corfforol | Arsylwi a sylwi |
| Ymateb i gwestiynau | Gofalu am eraill | Gofalu am iechyd meddwl ac emosiynol | Gwneud cysylltiadau – llythrennedd+rhifedd+cymhwysedd digidol |
| Ceisio her | Ymwybyddiaeth a gweithredu amgylcheddol | Defnyddio hiwmor | Cymryd risg wrth ddysgu |
| Defnyddio dysgu blaenorol | Ymwybyddiaeth ddiwylliannol | Dyfalbarhau a gwydnwch | Bod yn greadigol |
| Creu a defnyddio meini prawf llwyddiant | Dysgu ar y cyd | Deall sut mae pobl yn dysgu | Datrys problemau |
| Gosod targedau<br>Ymateb i adborth<br>Hunanasesu<br>Asesu cynnydd dros amser | Rhoi adborth | Bod yn annibynnol | Ymwybyddiaeth o fenter |

**Egwyddorion Cynnydd**:
Bydd dysgwyr yn meddu ar alluoedd amrywiol yn eu hieithoedd ac, er mwyn rhoi sail gadarn i ail iaith ac ieithoedd dilynol, caiff camau cynnar (megis cyfatebiaeth graffem-ffonem) eu hailystyried ym mhob iaith.

- # Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr

- Wrth iddynt symud ar hyd y continwwm dysgu, bydd dysgwyr yn adeiladu ar sgiliau ieithyddol sylfaenol i feithrin medr sy'n eu galluogi i oresgyn ystod o heriau cyfathrebu yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:
- gofyn cwestiynau cynyddol soffistigedig
- dod o hyd i wybodaeth yn annibynnol
- gwneud penderfyniadau trwy werthuso a beirniadu'r syniadau a'r safbwyntiau a'r dulliau cyfathrebu yn yr hyn y maen nhw'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld
- defnyddio iaith yn effeithiol i gyfleu eu syniadau a'u safbwyntiau eu hunain ar bynciau amrywiol
- Byddan nhw'n meithrin y sgiliau ieithyddol angenrheidiol i drafod a gwerthuso eu dysgu mewn ieithoedd.

# Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

- Caiff cynnydd yn y Maes hwn ei gynrychioli fel continwwm cydlynol. Mae'r dysgwr yn datblygu'n holistaidd o ran ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu wrth wrando a darllen, siarad ac ysgrifennu, a rhyngweithio a *chyfryngu* mewn ystod eang o gyd-destunau.
- Mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o gysyniadau ieithyddol sy'n cefnogi'r broses o feithrin sgiliau mewn modd mwy ymwybodol a hunanymwybodol i gyfathrebu'n effeithiol drwy siarad, ysgrifennu, ystumiau, delweddau neu gyfryngau eraill.
- Maen nhw hefyd yn gwneud cynnydd o ran ehangder a dyfnder gwybodaeth gysyniadol drwy profi syniadau mewn ieithoedd a llenyddiaeth, i ddechrau mewn cyd-destun mwy personol a lleol gan symud ymlaen i gysylltu â  chyfathrebu mwy cymhleth mewn byd amlieithog. Felly, yn raddol, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth fwy cynnil o wahanol safbwyntiau a meistrolaeth gynyddol o'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli, gwerthuso a mynegi safbwyntiau gwahanol ac ymateb iddyn nhw

# Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y meysydd

- Mae cynnydd yn y Maes hwn yn gontinwwm o ymgysylltiad cynyddol gymhleth â syniadau a dibenion cyfathrebu ac o feithrin ymwybyddiaeth ieithyddol. Caiff y rhain eu dangos fel a ganlyn:
- ymateb i ddulliau cyfathrebu wrth wrando, darllen neu dderbyn iaith mewn ffyrdd eraill
- eu cynhyrchu wrth siarad ac ysgrifennu neu drwy ddulliau cyfathrebu eraill.
- Mae defnyddio holl allu ieithyddol dysgwr – ni waeth pa mor anwastad y gall fod – yn ei alluogi i wneud cynnydd ym mhob iaith. Gellir cymhwyso dealltwriaeth o gysyniadau ieithyddol yn iaith y dosbarth, er enghraifft, at ddysgu iaith newydd, sy'n hwyluso cynnydd yn yr iaith honno yn ogystal â gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae holl ieithoedd y dysgwr  yn gweithio. Er y gall cynnydd dysgwyr fod ar wahanol bwyntiau mewn gwahanol ieithoedd, mae canolbwyntio ar *luosieithrwydd* yn eu galluogi i ddefnyddio eu dealltwriaeth o nifer o ieithoedd i ddeall testun llafar neu ysgrifenedig, ni waeth beth fo'u meistrolaeth o'r iaith honno, a deall yn gynyddol y cydberthnasau rhwng gwahanol ieithoedd a dysgu o'r cydberthnasau hyn.

# Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso

- Mae cynnydd o ran mireinio a soffistigeiddrwydd sgiliau yn symud o ddiben cyfathrebol llythrennol a syml i lefelau mwy haniaethol, casgladwy neu ddealledig a chynnil o ran ystyr, gyda dibenion mwy cymhleth. Mae iaith lafar yn rhagflaenu ar sgiliau cyn llythrennedd ac yn sail iddynt. Mae dysgwyr yn raddol yn meithrin ymwybyddiaeth well o iaith a mwy o soffistigeiddrwydd wrth ddefnyddio'r ymwybyddiaeth hon i gyflawni'r dibenion arfaethedig o ran dehongli a chyfathrebu drwy siarad neu ysgrifennu, neu drwy ddulliau eraill.
- I ddysgwyr iau, mae caffael iaith yn dilyn yr un drefn ag ar gyfer dysgwyr hŷn, er y gall cyflymder y mae'n gwneud hynny amrywio'n sylweddol. Wrth i ddysgwyr brofi, ymgyfarwyddo, deall a chymhwyso syniadau ac ymwybyddiaeth ieithyddol gynyddol gymhleth, mae cywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio sgiliau cyfathrebu yn gwella.
- Gwelir cynnydd yn y Maes hwn hefyd drwy ddefnyddio iaith. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy medrus, gallant addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag ystod o wahanol gynulleidfaoedd. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cydberthnasau cryf a'r hyder i ddefnyddio eu llais mewn cymdeithas.
- Gall dysgwyr ail iaith ddefnyddio iaith fformiwlaïg gydag ychydig iawn o gamgymeriadau i ddechrau ac, wrth iddynt wneud cynnydd a defnyddio iaith mewn ffordd fwy uchelgeisiol a digymell, gall ymddangos fel eu bod yn gwneud mwy o gamgymeriadau. Mae'r rhan annatod hon o'r broses o ddysgu iaith yn llwyddiannus yn arwain at ddod yn ddefnyddwyr mwy rhugl a chywir. Efallai na fydd dysgwyr ail iaith neu ddwyieithog o reidrwydd yn dangos yr un patrwm cynnydd ieithyddol â dysgwyr iaith gyntaf.

# Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd

- Mae cydberthynas sylweddol rhwng y Maes hwn a'r dysgu ym mhob maes arall. Mae'r dysgwr yn symud ar hyd y continwwm cynnydd yn rhannol drwy wynebu heriau cyfoethog ac adnoddau yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae cysylltiad agos rhwng y meddwl sydd ei angen i ddeall a chyfathrebu'r holl ddysgu a'r hyn sy'n galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau derbyn, dehongli a mynegi iaith. Maen nhw'n gwneud cynnydd ar y cyd mewn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn y Maes hwn ac mewn llythrennedd disgyblaethol yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill.
- Mae'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau i gyd-destunau newydd yn rhan annatod o gynnydd yn y Maes hwn. Wrth i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o ieithoedd ychwanegol, caiff patrymau o ran defnydd iaith eu hadnabod, eu haddasu a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd. Caiff dulliau cyfathrebu eu haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, a gwahanol gyd-destunau disgyblaethol. Mae sgiliau mewn iaith gyntaf ac ail iaith dysgwyr yn eu helpu i ddysgu mewn ieithoedd dilynol. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddan nhw'n gallu adnabod cysylltiadau rhwng ffyrdd o gyfathrebu, gan wneud dewisiadau da ynghylch dulliau cyfathrebu effeithiol.

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| **Mae ieithoedd yn ein cysylltu a'n gilydd** | | |
| Rwy'n dechrau bod yn ymwybodol o gysylltiad rhwng iaith(ieithoedd) a diwylliant, ac rwy'n datblygu ymdeimlad o berthyn. | Rwy'n gallu adnabod bod cysylltiad rhwng ieithoedd, diwylliant a'r ymdeimlad sydd gen i o'm hunaniaeth Gymreig. | Rwy'n gallu deall bod cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth a bod rhain yn amrywio o fewn Cymru ac o amgylch y byd. |
| Rwy'n dechrau deall bod gwahanol ieithoedd yn fy amgylchedd. | Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd. | Rwy'n gallu cyfathrebu mewn ystod cynyddol o ieithoedd. |
| Rwy'n dechrau siarad â'm cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol | Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd. | Rwy'n gallu adnabod a thrafod cysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng yr ieithoedd rwy'n eu siarad a'r rhai rwy'n eu dysgu. |
| | | Rwy'n gallu deall sut a pham mae ieithoedd wedi esblygu, ac yn parhau i esblygu. |
| | | Rwy'n gallu adnabod a deall gwahanol acenion a *thafodieithoedd*. |
| | Rwy'n dechrau defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn un iaith a'i mynegi yn fy ngeiriau fy hun mewn iaith arall | Rwy'n gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall. |